

# Ionawr 2025

## Adroddiad Cyflwr y Genedl

Y Gweithlu Therapi Lleferydd ac Iaith yng Nghymru

Coleg Brenhinol Therapyddion Lleferydd ac Iaith | Cymru

"Mae cyngor therapi lleferydd ac iaith a'r sicrwydd wedi bod yn amhrisiadwy. Fe wnaethon nhw ddarparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol. Fe wnaethon nhw gymryd amser i'w gweld yn bwyta ac yfed, doedd hyn ddim yn asesiad brys. Rhoddon nhw dawelwch meddwl i mi a'm pryderon. Darparwyd offer i mi, fel cwpan i yfed a sut i ddeall y lefelau tewychu cywir i gefnogi mam. Mae gen i restr o eitemau ymarferol rwy'n eu defnyddio fel rhestr wirio i gefnogi mam diolch i'w help nhw.

Merch a gofalwr mam â dementia

"Ces i noson rhieni heddiw ac fe ddywedon nhw pa mor dda mae e'n wneud gyda'i leferydd ac ati, dw i jest eisiau dweud diolch gymaint am be' ti'n neud efo fo gan fod pawb gan gynnwys fi fy hun yn gallu gweld newid mawr yn ei leferydd ac mae llwyth o bobl yn ei ddeall yn well a ddim yn edrych arna i i ofyn beth oedd e'n ei ddweud. Diolch yn fawr iawn. xx

Mam plentyn ag anhwylder lleferydd sain

"Collais fy llais am gyfnod hir a oedd yn golygu bod yn rhaid i mi gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith. Roedd hwn yn gyfnod arbennig o anodd ac yn ddi-os cafodd effaith negyddol sylweddol ar fy lles cyffredinol yn ogystal â bod yn gostus i'r ysgol. Roeddwn i'n ffodus i gael cefnogaeth gan aelodau o'ch timau yn ystod y cyfnod hwn ac rwy'n hynod ddiolchgar am eu cymorth a'u cefnogaeth sydd wedi golygu fy mod yn ôl yn y gwaith yn llawn amser gyda hyder ychwanegol bod gen i'r wybodaeth am sut i ofalu am fy llais yn well sydd mor hanfodol i ni fel athrawon.

Adborth gan athro mewn perthynas â'r gwasanaeth llais

"Roeddwn i eisiau dweud diolch yn fawr iawn am eich holl amser, cefnogaeth ac arbenigedd, rydych chi wedi bod yn berson hollbwysig sydd wedi fy helpu i ddeall fy mab a sicrhau ei fod yn cael ei gefnogi yn ei holl leoliadau addysgol, byddwn yn ddiolchgar i chi am byth am y wybodaeth rydych chi wedi'i rhannu â ni.

Mam i blentyn ag Anhwylder Datblygu Iaith

# Cynnwys


Rhagair 4

Pam mae angen y gweithlu therapi lleferydd ac iaith ar Gymru? 7

Beth yw'r galw am y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru a sut mae'n newid? 13

Sut olwg sydd ar y gweithlu therapi lleferydd ac iaith presennol? 27

Beth yw ein gweledigaeth ar gyfer y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru? 41

Sut olwg fydd ar y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yn y dyfodol? 47

Argymhellion 53

# Gan ein Pennaeth Swyddfa Cymru



**Pippa Cotterill**

Pennaeth Swyddfa Cymru, Coleg Brenhinol Therapyddion Lleferydd ac Iaith

Mae'n anhygoel meddwl mai dim ond un person yng Nghymru oedd ar gofrestr Coleg y Therapyddion Lleferydd pan gafodd ei sefydlu yn 1945 a bellach mae cannoedd ohonom ni. Mae fy nghysylltiad i â Choleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn mynd yn ôl dros 25 mlynedd. Rydyn ni'n broffesiwn sy'n mynd o nerth i nerth oherwydd aelodau ein corff proffesiynol - ein haelodau presennol a'r rhai a ddaeth o'n blaenau, a byddwn, rwy'n siŵr yn parhau i ddatblygu. Mae'r angerdd sy'n cysylltu cynifer ohonom yn y proffesiwn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r blaenoriaethau i Lywodraeth Cymru, sef lleihau anghydraddoldebau iechyd, galluogi plant yn eu blynyddoedd cynnar a thrwy gydol eu haddysg, gweithio gyda chleifion yn agos i'w cartrefi.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r agweddau ar therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru a'r lefel uchel a'r galw cynyddol am ein gwaith. Mae'r gwahaniaeth y mae aelodau'r proffesiwn yn ei wneud i bobl o bod oed a chyfnod mewn bywyd ym meysydd lleferydd, iaith, cyfathrebu a llyncu yn golygu bod llawer mwy y gallem ac y dylem fod yn ei wneud.

Rwy'n falch iawn o fod yn Bennaeth Swyddfa Cymru ar gyfer RCSLT a gwaith y proffesiwn yn y gorffennol, y presennol gan edrych tuag at ddyfodol lle rydyn ni'n parhau i drawsnewid bywydau.



# Gan ein Prif Weithredwr



**Steve Jamieson**

Prif Weithredwr, Coleg Brenhinol Therapyddion Lleferydd ac Iaith

Rwy'n falch iawn i groesawu cyhoeddiad yr adroddiad pwysig hwn ar achlysur dathlu 80 mlwyddiant Coleg Brenhinol Therapyddion Lleferydd ac Iaith (RCSLT). Ers dod yn Brif Weithredwr RCSLT yn 2023, mae gwaith arloesol ein haelodau yng Nghymru wedi creu cryn argraff arnaf. Mae Cymru yn arwain y ffordd mewn nifer o feysydd ledled y DU gan gynnwys cynllun cenedlaethol cyflawni ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu, swydd cydlynydd lleferydd, iaith a chyfathrebu cenedlaethol yn Llywodraeth Cymru a datblygu Llwybrau Clinigol Cymru Gyfan.

Mae'r adroddiad hwn yn gyfle pwysig i fyfyrio ar amrywiaeth y meysydd y mae'r proffesiwn bellach yn gweithio ynddynt yng Nghymru, i ddeall y galw a phroffil ein gweithlu presennol a nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Rydyn ni'n hynod ddiolchgar i'r aelodau sydd wedi rhoi o'u hamser fel aelodau o'r grŵp cynghori i lunio'r cynnwys ar gyfer yr adroddiad hwn.

Mae therapi lleferydd ac iaith yn ganolog i ofal ataliol ac ymyrraeth gynnar ac eto, fel sy'n wir ar draws y DU, mae'r proffesiwn therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru yn broffesiwn dan bwysau. Fel sy'n glir yn yr adroddiad, nid ydym wedi gweld y buddsoddiad sydd ei angen i gefnogi a thyfu'r gweithlu therapi lleferydd ac iaith i wneud y gorau o'i botensial. Mae argymhellion yr adroddiad yn darparu glasbrint yr hyn sydd ei angen i ysgogi newid. Mae angen i ni weld buddsoddiad mewn swyddi a chynnydd parhaus yn nifer y myfyrwyr fel rhan o ddull mwy soffistigedig o gynllunio'r gweithlu, a hynny ar fyrder. Rhaid i ni flaenoriaethu sicrhau mwy o amrywiaeth mewn llwybrau i'r proffesiwn a ffocws clir ar gadw'r gweithlu presennol drwy wella cyfleoedd arweinyddiaeth a diogelu amser ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Yn RCSLT, ein cenhadaeth yw galluogi bywydau gwell i bobl ag anghenion cyfathrebu a llyncu. Rwy'n gobeithio y gall yr adroddiad hwn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni'r newid sylweddol sydd ei angen ar gyfer y miloedd o bobl yng Nghymru sydd angen cymorth therapi lleferydd ac iaith.





# Pam mae angen y gweithlu therapi lleferydd ac iaith ar Gymru?

Mae therapyddion lleferydd ac iaith a chynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith yn darparu triniaeth, cefnogaeth a gofal sy'n gwella bywydau i blant ac oedolion sy'n cael anawsterau gyda chyfathrebu, bwyta, yfed a/neu lyncu.

Mae'r gweithlu therapi lleferydd ac iaith yn chwarae rhan allweddol wrth leihau anghydraddoldebau iechyd a gwella ansawdd bywyd.

Mae therapyddion a chynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl sydd ag anghenion cyfathrebu a/neu lyncu yn ogystal â theuluoedd a gofalwyr. Maen nhw hefyd yn darparu hyfforddiant a strategaethau i'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, addysg a chyfiawnder ehangach.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydyn ni wedi trawsnewid y ffordd rydyn ni'n gweithio fel proffesiwn, yn enwedig ym maes gwasanaethau plant, i fod yn fodel cyffredinol, arbenigol ac wedi'i dargedu. Rydyn ni'n canolbwyntio fwyfwy ar weithio gyda'r rhai agosaf at y person gan gynnwys eu teulu a'u lleoliad (er enghraifft, ysgol, meithrinfa, cartref gofal) er mwyn gwneud y gwahaniaeth mwyaf posibl.

# Pwy sy’n cael budd o therapi lleferydd ac iaith?

Mae therapi lleferydd ac iaith yn fuddiol i bobl o bob oed;

## Babanod



- Yn ôl gwaith ymchwil, mae babanod sy’n cael eu derbyn i unedau newyddenedigol mewn perygl o wynebu anawsterau bwydo a chyfathrebu cynnar.[1,2] O gyfnod cynnar iawn mewn bywyd, mae therapyddion lleferydd ac iaith yn cefnogi plant a babanod cynamserol sy’n cael anawsterau gyda sgiliau yfed, llyncu a chwarae a chyfathrebu cynnar, o ganlyniad i enedigaethau cynamserol, cyflyrau genetig neu niwrolegol.

## Blynyddoedd Cynnar



- Mae gan dros **10%** o blant a phobl ifanc anghenion cyfathrebu hirdymor.[3] Mae ymchwil yn awgrymu bod lefel uchel o sgiliau iaith cynnar gwael mewn ardaloedd cymdeithasol difreintiedig. Mae **32%** o blant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn byw mewn ardaloedd o anfantais gymdeithasol uchel.[4]

## Plant oed ysgol



- Mae’r gweithlu therapi lleferydd ac iaith yn gweithio’n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc a’u teuluoedd i ddatblygu strategaethau personol i’w cefnogi i gyfathrebu hyd eithaf eu gallu. Rydyn ni hefyd yn darparu hyfforddiant a strategaethau i’r gweithlu ehangach, fel athrawon a chynorthwywyr dysgu, fel eu bod yn gallu nodi arwyddion anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, gwella amgylchedd cyfathrebu pobl sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a lleihau effaith anghenion p’un a ydynt yn fyrhoedlog neu’n barhaus.

1 Jadcherla, SR (2016). Dysphagia in the high-risk infant: potential factors and mechanisms. The American journal of clinical nutrition. 103(2), 622S-628S

2 Gewolb IH, Vice FL, Schweitzer EL, Taciak VL, Qureshi M, Bosma JF (1999). Developmental Patterns of Rhythmic Suckle and Swallow in Preterm Infants. Pediatric Research. Apr 1;45:199A

3 Hartshorne, M (2006). The Cost to the Nation of Children’s Poor Communication. ICAN Talk Series, No.2. London: I CAN

## Oedolion



- Mae’r gweithlu therapi lleferydd ac iaith yn cefnogi oedolion ag anableddau dysgu a’r rheini ag anawsterau cyfathrebu, llais a/neu lyncu o ganlyniad i nifer o gyflyrau, megis strôc, canser y pen a’r gwddf, clefyd Parkinson a dementia.

  Mae ymchwil yn dangos bod gan **50%-90%** o’r boblogaeth sydd ag anableddau dysgu anawsterau cyfathrebu.[5]

  Mae ymchwil yn awgrymu bod **64%** o gleifion mewnol sy’n goroesi strôc yn cael rhyw lefel o anawsterau cyfathrebu yn dilyn strôc.[6]

  Mae ymchwil wedi canfod bod dysffagia (anawsterau llyncu) yn effeithio ar **50-60%** o oroeswyr canser y pen a’r gwddf.[7]

  Mae gan y gweithlu therapi lleferydd ac iaith rôl allweddol i’w chwarae wrth gefnogi’r boblogaeth oedrannus, eiddil. Maen nhw’n galluogi pobl i fyw’n dda gartref ac atal derbyniadau i’r ysbyty drwy leihau risgiau wrth fwyta ac yfed a chynorthwyo cyfathrebu â’r teulu a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal.

  Mae cyswllt uchel rhwng eiddilwch mewn oedolion hŷn ac anawsterau bwyta, yfed a llyncu.[8] I’r rhai dros 80 oed, mae achosion bwyta, yfed a llyncu yn ystod mynediad acíwt i’r ysbyty wedi cyrraedd **82.4%**.[9]

4 Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD), (2023). Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Pam maen nhw’n bwysig a beth allwn ni ei wneud? https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Special-Educational-Needs

5 Enderby, P, and Davies, P, (1989). Communication Disorders: planning a service to meet the needs. BJDC; 24, 151-166.

6 Mitchell, M, Tyson, S, Vail, A, Conroy, P, Paley, L & Bowen, A (2021). Prevalence of aphasia and dysarthria among inpatient stroke survivors: describing the population, therapy provision and outcomes on discharge, Aphasiology, 35:7, 950-960.

7 Zebralla, V, Wichmann, G, Pirlich, M, Hammermuller, C, Berger, T, Zimmermann, K, Neumuth, T, Mehnert-Theuerkauf, K, Dietz, A, Hinz, A & Wiegand, S. Dysphagia, voice problems, and pain in head and neck cancer patients. Eur Arch Otorhinolaryngol 278, 3985–3994 (2021). https://doi.org/10.1007/s00405-020-06584-6

8 Bahat, G, Yilmaz,O, Durmazoglu, S, Kilic, C, Tasgioglu, C, Karan, MA, (2019). Association between dysphagia and frailty in community dwelling older adults. The Journal of Nutrition, Health and Ageing;23(6):571-577.doi: 10.1007/s12603-019-1191-0 https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/31233080/

9 Mateos-Nozal, J, Montero-Errasquin, B, Sanchez Garcia, E, Romero Rodriguez, E, Cruz-Jentoft, A, (2020). High prevalence of oropharyngeal dysphagia in acutely hospitalised patients aged 80 years and older. Journal of the American Medical Directors Association. (12):2008-2011. https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/32499182/

# Pwy sy’n cael budd o therapi lleferydd ac iaith?

Mae therapyddion lleferydd ac iaith yn gweithio gyda phobl o bod oed, o’r crud i’r bedd. Maen nhw hefyd yn gweithio ar draws meysydd clinigol lluosog, gwahanol, gan gynnwys;

## Gwasanaethau niwroddatblygiadol

- Mae gan therapyddion rôl unigryw wrth nodi nodweddion cyfathrebu cymdeithasol sy’n bwysig i ddiagnosis, gan gyfrannu at ddiagnosis gwahaniaethol a hwyluso adnabod galluoedd a gedwir a chydafiacheddau. Mae ganddynt hefyd rôl allweddol wrth addysgu/hyfforddi eraill sy’n ymwneud â gofalu am y rhai sydd â chyflyrau niwroddatblygiadol.

## Cyfiawnder

- Roedd gan **71%** o’r plant a ddedfrydwyd yn y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr (19 Ebrill - Mawrth 20) anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.[10] Mae therapyddion yn gweithio’n uniongyrchol gyda phobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a/neu’n cefnogi’r staff a’r gweithlu ehangach o’u cwmpas.

## Iechyd meddwl

- Yn ôl gwaith ymchwil, mae gan **81%** o blant a phobl ifanc ag anhwylderau emosiynol ac ymddygiadol anghenion cyfathrebu nad ydynt wedi’u nodi o’r blaen.[11]

  Yn ôl gwaith ymchwil, mae gan **80%** o oedolion ag anhwylderau iechyd meddwl nam o ran iaith.[12]

  Mae gan therapyddion rôl unigryw i’w chwarae fel aelodau o dimau iechyd meddwl amlddisgyblaethol wrth nodi anawsterau cyfathrebu ac anhwylderau llyncu, eu cefnogi a rheoli a lleihau niwed a risg gysylltiedig.

10 UK Government (2020). Assessing the needs of sentenced children in the Youth Justice System - https://www.gov.uk/government/statistics/assessing-the-needs-of-sentenced-children-in-the-youth-justice-system

11 Hollo, A, Wehby, J & Oliver, R M (2014). Unidentified Language Deficits in Children with Emotional and Behavioral Disorders: A Meta-Analysis. Exceptional Children

12 Walsh, I, Regan, J, Sowนman, R, Parsons, B, McKay, A P (2007). A needs analysis for the provision of a speech and language therapy service to adults with mental health disorders. Ir J Psych Med 24(3): 89-93



## Gwasanaethau rhywedd

- Adroddir dro ar ôl tro bod llais a chyfathrebu yn ffactor hanfodol wrth sicrhau cydnawsedd rhywedd.[13] Fel rhan o dîm amlddisgyblaethol, mae gan therapyddion rôl hanfodol i’w chwarae wrth sicrhau’r canlyniadau rhywedd gorau posibl i bobl draws ac anneuaidd.

## Gofal dwys

- Mae pobl sy’n cael eu derbyn i unedau gofal critigol yn aml yn profi anawsterau gyda llyncu a chyfathrebu fel rhan o’u diagnosis sylfaenol a/neu’n gysylltiedig ag arhosiad hir mewn Uned Gofal Dwys. Mae hyd at **62%** o gleifion yn profi anawsterau llyncu yn dilyn dod oddi ar beiriant anadlu yn yr uned gofal dwys.[14] Mae therapyddion yn aelodau allweddol o’r tîm amlddisgyblaethol ac yn chwarae rhan allweddol wrth asesu a rheoli’r garfan gymhleth hon o gleifion. Oherwydd ymwybyddiaeth gynyddol o werth y rôl therapi lleferydd ac iaith yn y lleoliad hwn, mae gweithlu cynyddol o therapyddion lleferydd ac iaith yn gweithio yn y maes clinigol hwn yng Nghymru.

13 Nygren et al. (2016) Cited in: Adler, R. K, Hirsch, S. and Pickering, J (2019). Voice and communication therapy for the transgender/gender diverse client: a comprehensive clinical guide Third edition. | San Diego, CA : Plural Publishing

14 Zuercher, P, Moret, C.S, Dziewas, R and Schefold, J C (2019). Dysphagia in the intensive care unit: epidemiology, mechanisms, and clinical management. Crit Care 23, 103 (2019). https://doi.org/10.1186/s13054-019-2400-2

Roedd gan

71%

o’r plant a ddedfrydwyd yn y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr (19 Ebrill - Mawrth 20) anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Mae gan


81%

o blant a phobl ifanc ag anhwylderau emosiynol ac ymddygiadol anghenion cyfathrebu nad ydynt wedi’u nodi o’r blaen.



# Beth yw'r galw am y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru a sut mae'n newid?

Mae'r galw am therapi lleferydd ac iaith wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawd diwethaf i blant ac oedolion gan gynnwys y rheini ag anableddau dysgu. Mae galwadau ar therapyddion lleferydd ac iaith i ehangu i feysydd lle mae angen sylweddol heb ei ddiwallu.



Cydnabyddir gan Lywodraeth Cymru fod prinder therapyddion iaith a lleferydd yng Nghymru, fel y nodwyd gan ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Senedd 2023 ac yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog ym mis Hydref 2024.

> 'Rydym yn cydnabod y buddion a fyddai'n deillio o'r argymhelliad hwn ar gyfer pobl ifanc yn y ddalfa. Fodd bynnag, dim ond oddeutu 800 o therapyddion lleferydd ac iaith cofrestredig sydd yng Nghymru. Ar hyn o bryd nid oes digon o therapyddion lleferydd ac iaith yn cael eu cyflogi gan y GIG i wneud y llwyth gwaith ychwanegol hwn. Byddai hyn yn gofyn am leoedd hyfforddi ychwanegol ac am greu swyddi.'[1]

> 'Y broblem mewn gwirionedd yw dod o hyd i ddigon o therapyddion lleferydd i gefnogi honno, ac nid yw hynny'n syml oherwydd, mewn gwirionedd, mae'n cymryd cryn amser i hyfforddi pob therapydd lleferydd. Mae'r galw yn cynyddu yn gyson, ac yn amlwg, mae'r GIG yn awyddus iawn i fanteisio ar y sgiliau hynny hefyd. Felly, mae mwy i'w wneud yn y maes hwnnw, ond rydym ni'n ymwybodol iawn bod angen.'[2]

1 Llywodraeth Cymru (2023). Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol o'r enw 60% - Rhoi llais iddyn nhw - Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn y System Cyfiawnder Ieuenctid. https://senedd.cymru/media/00edanjq/gen-ld15904-w.pdf

2 Prif Weinidog Cymru (2024). Cwestiynau i'r Prif Weinidog, Cyfarfod Llawn, Cofnod Trafodion y Senedd 8 Hydref 2024. https://record.senedd.wales/Plenary/14139




Yn gyffredinol, mae nifer cyfartalog y bobl ar restrau aros ar gyfer therapi lleferydd ac iaith wedi cynyddu **33%** ers Ebrill 2019.[3]




**Mae nifer cyfartalog y plant a'r bobl ifanc ar restrau aros wedi cynyddu 31% ers Ebrill 2019.**




**Mae nifer cyfartalog yr oedolion ar restrau aros wedi cynyddu 37% ers Ebrill 2019.**




**Mae nifer cyfartalog y bobl ar restrau aros anableddau dysgu wedi cynyddu 43% ers Ebrill 2019.**

3 Stats Cymru. Data o: Amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a Therapi yn ôl wythnosau o aros, bwrdd iechyd, safle ysbyty a grŵp oedran, o fis Hydref 2009 ymlaen (adolygwyd Awst 2024).

# Plant a phobl ifanc

## Babanod

- Mae cyfraddau goroesi babanod cynamserol a'r rhai â phwysau geni isel wedi codi'n sylweddol yn ystod y 30 mlynedd diwethaf oherwydd datblygiadau mewn gofal newyddenedigol arbenigol.[4] Gall cyn-aeddfedrwydd gynyddu'r tebygolrwydd o anawsterau llyncu a lleferydd, iaith a chyfathrebu yn sylweddol o'i gymharu â babanod sy'n cael eu cario i'w hamser.[5]

  Mae angen i gapasiti gofal newyddenedigol arbenigol gadw i fyny â'r datblygiadau hyn i wella'r canlyniadau tymor byr a hirdymor i'r babanod hyn.[6] Mae sawl archwiliad o ddarpariaeth newyddenedigol yng Nghymru wedi amlygu pryder sylweddol ynghylch prinder gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd gan gynnwys therapyddion lleferydd ac iaith o fewn timau a diffyg cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer therapïau.

## Gwasanaethau plant

- Mae gan **35%** o blant Cymru ag anghenion dysgu ychwanegol anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yw'r math mwyaf cyffredin o anghenion dysgu yng Nghymru. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu **17%** ers 2022.[7]

  Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd cyson yng nghanran y plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n mynychu ysgolion arbennig gan godi o **4%** o ddisgyblion yn 2013/14 i **12%** o ddisgyblion yn 2023/24.[8] Nid yw'r ddarpariaeth lleferydd ac iaith i gefnogi darpariaeth ysgolion arbennig wedi cadw i fyny â'r newidiadau hyn.

  Mae nifer yn cydnabod bod Covid 19 a'r cyfnodau clo wedi cael effaith sylweddol ar sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant. Datgelodd adroddiad ICAN, Speaking Up for the Covid Generation fod gan fwyafrif yr athrawon a holwyd ar draws y DU bryderon difrifol am effaith y pandemig ar sgiliau siarad a dealltwriaeth plant.[9] Fe wnaeth adroddiad Estyn 2022/23 hefyd ddatgelu pryderon gan athrawon yng Nghymru am effaith y pandemig ar sgiliau cyfathrebu plant.[10]



**Mae gan**



**35%**

**o blant Cymru ag anghenion dysgu ychwanegol anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu**

Roedd adroddiad 2024 Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar fynediad at ofal plant ac addysg i blant anabl yn cynnwys nifer o sylwadau ar brinder gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gan gynnwys therapyddion lleferydd ac iaith gydag argymhelliad allweddol bod;

> *'Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r niferoedd presennol o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd allweddol, yn nodi ble mae'r bylchau presennol, sut yr eir i'r afael â'r bylchau hyn a'r niferoedd sydd eu hangen i gefnogi lefel debygol o angen yn y dyfodol, gan gynnwys nifer y lleoedd hyfforddi sydd eu hangen. Yna dylai hyn gael ei gefnogi gan gynllun cyflawni clir.'*

4 Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain (2019). Perinatal Management of Extreme Preterm Birth before 27 weeks of gestation A Framework for Practice. https://hubble-live-assets.s3.amazonaws.com/bapm/attachment/file/182/Extreme_Preterm_28-11-19_FINAL.pdf

5 Jadcherla, SR (2016). Dysphagia in the high-risk infant: potential factors and mechanisms. The American journal of clinical nutrition. 103(2), 622S-628S

6 NICE (2017). Developmental follow up of children and  born pre-term – NICE guideline [NG72]. https://www.nice.org.uk/guidance/ng72

7 Stats Cymru (2024). Cyfrifiad ysgol blynyddol ar lefel disgybl. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Special-Educational-Needs

8 Ibid.

9 ICAN (2021). Speaking up for the COVID Generation. https://speechandlanguage.org.uk/wp-content/uploads/2023/12/speaking-up-for-the-covid-generation-i-can-report.pdf

10 Estyn (2023). Adroddiad Blynyddol PAEF 2022-23. https://www.estyn.llyw.cymru/app/uploads/2024/10/Adroddiad-Blynyddol-2022.23.pdf

11 Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd (2024). A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? https://senedd.cymru/media/qrudvrjc/cr-ld16592-w.pdf

## Gwasanaethau niwroddatblygiadol

Canfu adolygiad gan Lywodraeth Cymru o wasanaethau niwroddatblygiadol yn 2022 fod nifer cynyddol o blant ac oedolion yng Nghymru yn ceisio cael diagnosis ADHD neu awtistiaeth.[12] Ym mis Rhagfyr 2023, roedd **16,812** o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn aros am asesiad niwroddatblygiadol ADHD neu ASD.

Ym mis Mehefin 2023, roedd **67%** o blant a phobl ifanc yn aros am asesiad niwroddatblygiadol ADHD neu ASD yng Nghymru wedi bod yn aros am 26 wythnos neu fwy.[13] Mae'r galw am therapyddion lleferydd ac iaith sy'n gweithio mewn gwasanaethau niwroddatblygiadol yn parhau i dyfu.

12 Llywodraeth Cymru (2022). Adolygiad o'r Galw, Capasiti a Chynllun Gwasanaethau Niwroddatblygiadol: Adroddiad Llawn. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2022-10/adolygiad-or-galw-capasiti-chynllun-gwasanaethau-niwroddatblygiadol-adroddiad-llawn-064.pdf

13 Ymchwil y Senedd (2024). Y galw cynyddol am asesiadau ADHD ac awtistiaeth yng Nghymru. https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/y-galw-cynyddol-am-asesiadau-adhd-ac-awtistiaeth-yng-nghymru/



## Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Mae cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg, Mwy na Geiriau, yn cynnwys therapi lleferydd ac iaith fel grŵp blaenoriaeth.[14] Mae canllawiau RCSLT yn nodi'n glir y dylid darparu ymyriadau therapi lleferydd ac yn iaith cartref yr unigolyn a chefnogi'r teulu i ddefnyddio iaith y cartref pan fo angen/priodol.[15]

Mae sicrhau cyflenwad digonol o ymarferwyr Cymraeg eu hiaith yn flaenoriaeth o ran sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg ar gael.[16] Mae ymchwil diweddar a gomisiynwyd gan y Gymdeithas Strôc yn tynnu sylw at bryderon ynghylch argaeledd darpariaeth therapi lleferydd ac iaith drwy gyfrwng y Gymraeg i bobl ag affasia (anhwylder mewn siarad, ysgrifennu a deall Iaith lafar ac ysgrifenedig o ganlyniad i niwed niwrolegol). Mae'r maes hwn yn parhau i fod yn faes pwysig sy'n gofyn am fuddsoddiad. Rydym yn trafod y mater hwn ymhellach ym mhennod y gweithlu presennol.

14 Llywodraeth Cymru (2022). Mwy na geiriau cynllun pum mlynedd 2022-27. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2022-2027.pdf

15 Pert, S, a Bradley, B (2018). Clinical Guidelines for Speech and Language Therapists: Bilingualism: Working with bilingual clients/patients with speech, language and communication needs. Coleg Brenhinol Therapyddion Lleferydd ac Iaith. https://www.rcslt.org/clinical_resources/bilingualism/bilingualism_overview

16 Broomfield, K and Williams, C (2024). Experiences of Welsh speaking people with aphasia – Stroke Association/ Cardiff Metropolitan University project 2023.

# Oedolion

## Oedolion

**21%**

**o oroeswyr strôc yng Nghymru wedi dweud nad oeddent yn derbyn digon o gefnogaeth ar ôl strôc**

Mae gan Gymru boblogaeth hŷn na gwledydd eraill y DU ac mae cyfran uchel o'r boblogaeth yn byw gyda chyflyrau hirdymor gan gynnwys eiddilwch, dementia, canser, ac iechyd meddwl gwael.[17] Mae nifer cynyddol o bobl hŷn ag anghenion llyncu a chyfathrebu yn ein cymunedau sydd angen cymorth adsefydlu. Mae'r cymorth hwn yn hanfodol er mwyn galluogi pobl i aros yn annibynnol a lleihau derbyniadau i unedau brys. Er hynny rydyn ni'n aml yn clywed gan wasanaethau nad ydynt yn cyflwyno ceisiadau am ffrydiau ariannu a fyddai'n gwella'r ddarpariaeth sylfaenol a chymunedol oherwydd y pryderon nad oes digon o therapyddion lleferydd ac iaith i ehangu i rolau newydd a gwaith prosiect.

Rydyn ni'n croesawu buddsoddiad diweddar, rheolaidd mewn rolau gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn y gymuned ond mae gennym bryderon hirsefydlog am y ddarpariaeth adsefydlu bresennol yng Nghymru. Atgyfnerthir y pryderon hyn gan ganfyddiadau Adroddiad Sbotolau Therapi SSNAP (Rhaglen Archwilio Genedlaethol Strôc Sentinel 2024)[18] a amlygodd, er bod 'cynnydd bach wedi bod yn 2023/24 yng nghyfran dyddiau cleifion mewnol lle derbyniwyd therapi ar draws disgyblaethau therapi.....bu gostyngiad yn y safon o dderbyn 45 munud o therapi pum niwrnod yr wythnos ers 2022/23 mewn therapi lleferydd ac iaith'.  Mae hyn yn awgrymu nad yw llawer o oroeswyr strôc yn derbyn y dwyster therapi a argymhellir.

Caiff y pryderon hyn eu hategu mewn adroddiadau gan grwpiau trawsbleidiol y Senedd. Datgelodd adroddiad yn 2020 gan y Gymdeithas Strôc, yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o ymchwiliad y Grŵp Strôc Trawsbleidiol, fod **21%** o oroeswyr strôc yng Nghymru wedi dweud nad oeddent yn derbyn digon o gefnogaeth ar ôl strôc,[19] gyda lleiafrif yn unig o oroeswyr strôc yn derbyn therapïau ar y lefelau a argymhellir mewn canllawiau.[20]

Amlygodd ymchwiliad Cynghrair Niwrolegol Cymru i effaith cynllun cyflawni niwrolegol Llywodraeth Cymru fod lefelau isel o wasanaethau cymunedol yn parhau i fodoli, gan nodi;

> *'Disgrifiwyd llawer o brofiadau gwael gan gyfranwyr, yn enwedig o ran diffyg argaeledd gwasanaethau yn y gymuned, er enghraifft ffisiotherapi, therapi lleferydd ac iaith, therapi galwedigaethol, cyngor a chefnogaeth o ran ymataliaeth, gwasanaethau sy'n helpu pobl i fod yn egnïol yn gorfforol, gwasanaethau iechyd meddwl a chefnogaeth emosiynol.'*[21]

## Oedolion ag anableddau dysgu

Mae gan tua 1.5 miliwn o bobl yn y DU anabledd dysgu. Mae gan hyd at 350,000 o bobl anabledd dysgu difrifol. Mae'r niferoedd hyn yn cynyddu a rhagwelir cynnydd o **34%** mewn pobl ag anabledd dysgu difrifol erbyn 2027.[22] Dengys gwaith ymchwil fod ar **89%** o bobl ag anabledd dysgu angen am ymyrraeth therapi lleferydd ac iaith.[23] Bydd y cynnydd yn nifer y bobl ag anableddau dysgu yn cael effaith sylweddol ar y galw am ddarpariaeth therapi lleferydd ac iaith i'r boblogaeth hon.

17 Llywodraeth Cymru (2023). Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth: Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy Archwiliad o effaith amcanestynedig cyflyrau hirdymor a ffactorau risg yng Nghymru. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-09/cyngor-ar-wyddoniaeth-a-thystiolaeth.pdf

18 Rhaglen Archwilio Genedlaethol Strôc Sentinel (2024). SSNAP spotlight report: stroke rehabilitation. https://www.strokeaudit.org/SupportFiles/Documents/Annual-report/2024/SSNAP-Annual-Report-2024-Therapy-Spotlight-Report.aspx

19 Cymdeithas Strôc (2020). Stroke recoveries at risk – how COVID 19 has affected stroke survivors in Wales. https://www.stroke.org.uk/sites/default/files/campaigning/jn_2021-121.5_-_covid_report_wales.pdf

20 Ibid.

21 Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Gyflyrau Niwrolegol (2020). Gosod y sylfeini ar gyfer newid:  Effaith Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwiliad Grŵp Trawsbleidiol ar Gyflyrau Niwrolegol. https://www.walesneurologicalalliance.org.uk/2021/wp-content/uploads/2021/10/Building-the-Foundations-for-Change-FINAL-WELSH.pdf

22 Idriss, O, Allen, L, Alderwick, H (2020). Social care for adults aged 18–64. The Health Foundation. Intensive Interaction Institute. [online] Ar gael: https://www.intensiveinteraction.org/ [Accessed 18 August 2022].

23 Bradshaw, J (2007). Chapter 6: Between You and Me. Learning Disabilities Today. Carnaby S (Ed). Pavillion: Brighton.

# Meysydd lle mae angen heb ei ddiwallu: Cyfiawnder

## Cyfiawnder

- Cododd adroddiad Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd 2023, 60% Rhoi Llais Iddyn nhw,[24] broffil pobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu o fewn y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru gan wneud argymhelliad allweddol;

> ***'Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer lleoli therapyddion lleferydd ac iaith ym mhob Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru.'***

Wrth wrthod yr argymhelliad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau'n gyson nad oes digon o therapyddion lleferydd ac iaith yng Nghymru i leoli'r proffesiwn yn y rolau hyn. Mae adroddiadau arolygu cyfiawnder ieuenctid diweddar gan Arolygydd Carchardai Ei Fawrhydi yng Nghonwy a Sir Ddinbych[25] a Gwynedd a Môn[26] yn nodi bod bwlch ym maes therapi lleferydd ac iaith ac maent yn cynnwys argymhellion allweddol i fynd i'r afael â'r mater hwn. Rydyn ni'n parhau i weithio gyda rheolwyr y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid i wthio am ragor o swyddi therapi lleferydd ac iaith ym maes cyfiawnder ieuenctid. Mae hwn yn faes sy'n gofyn am fuddsoddiad a chynllunio gweithlu hirdymor ar fyrder i roi terfyn ar loteri cod post gwasanaethau ledled Cymru.

24 Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd (2023). 60% Rhoi llais iddyn nhw - anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid. https://senedd.wales/media/0zznsck2/cr-ld15786-w.pdf

25 APEF (2024). Arolygiad o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych. https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2024/03/Arolygiad-o-wasanaethau-cyfiawnder-ieuenctid-Conwy-a-Sir-Ddinbych.pdf

26 APEF (2024). Archwiliad o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Ngwynedd a Môn. https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2024/03/Arolygiad-o-wasanaethau-troseddau-ieuenctid-Gwynedd-ac-Ynys-Mon.pdf



# Meysydd lle mae angen heb ei ddiwallu: Iechyd meddwl

## Iechyd meddwl

- Mae tystiolaeth ddiweddar yn dangos darlun pryderus am iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Canfu Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion, o'u harolwg o bobl ifanc oed ysgol uwchradd yn 2021/22, fod **24%** wedi nodi symptomau iechyd meddwl "uchel iawn."[27]

Daw Adroddiad Cyngor Tystiolaeth Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru: y GIG mewn 10+ mlynedd i'r casgliad y bydd poblogaeth sy'n heneiddio yn golygu cyfran uwch o'r boblogaeth yn byw gydag iechyd meddwl gwael[28] ac felly bydd mwy o alw am gymorth cyfathrebu a llyncu.

Mae cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol AaGIC[29] yn gwneud nifer o argymhellion ar rolau gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd newydd a'r cynllun braenaru. Mae nifer o rolau therapi lleferydd ac iaith wedi'u hariannu o dan linyn cynllun braenaru gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn yr adroddiad ac rydym yn rhagweld twf yn y maes hwn.

Rydyn ni hefyd wedi bod yn rhan o ddylanwadu ar y Bil Iechyd Meddwl drafft ar lefel y DU ac wedi bod yn galw am ymestyn rôl y clinigwyr cyfrifol / cymeradwy i therapyddion lleferydd ac iaith. Mae gan y datblygiad hwn oblygiadau sylweddol posibl i'r gweithlu os caiff ei ddwyn ymlaen gan Lywodraeth y DU.

27 Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (2023). Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru: Adroddiad Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2021/22. https://www.shrn.org.uk/cy/data-cenedlaethol/

28 Llywodraeth Cymru (2023). Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth: Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy Archwiliad o effaith amcanestynedig cyflyrau hirdymor a ffactorau risg yng Nghymru. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-09/cyngor-ar-wyddoniaeth-a-thystiolaeth.pdf

29 Addysg a Gwella Iechyd Cymru/ Gofal Cymdeithasol Cymru (2022). Cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. https://aagic.gig.cymru/gweithlu/cynllun-gweithlu-iechyd-meddwl-strategol/

# Meysydd lle mae angen heb ei ddiwallu:
# Gwasanaethau rhywedd

## Gwasanaethau rhywedd

Ers sefydlu Timau Rhywedd Lleol sy'n cynnwys meddyg a therapydd lleferydd ac iaith ym mhob bwrdd iechyd lleol, bu disgwyliad y byddai anghenion therapi lleferydd ac iaith y grŵp cleientiaid hwn yn cael eu diwallu gan y gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith craidd presennol ym mhob bwrdd iechyd. Nid yw darpariaeth therapi lleferydd ac iaith ar gyfer y boblogaeth hon yn cael ei chomisiynu'n benodol.

Bu cynnydd sylweddol iawn yn nifer yr atgyfeiriadau at wasanaethau therapi lleferydd ac iaith ers sefydlu Gwasanaeth Rhywedd Cymru, fel y nodir yn y tabl ar dudalen 25, heb unrhyw arwydd y bydd y duedd hon yn newid.

**Cyfraddau atgyfeirio therapi lleferydd ac iaith Cymru ar gyfer gwasanaethau Traws a Rhywedd Amrywiol/ cadarnhau rhywedd 2019 – 2024**

| Bwrdd Iechyd | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | 2023/2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Aneurin Bevan | 29 | 41 | 45 | 60 | 55 |
| Betsi Cadwaladr | 14 | 11 | 40 | 76 | 106 |
| Caerdydd a'r Fro | 11 | 37 | 57 | 85 | 116 |
| Cwm Taf Morgannwg | 1 | 18 | 40 | 47 | 68 |
| Hywel Dda | 5 | 18 | 36 | 38 | 56 |
| Powys | 4 | 7 | 10 | 13 | 11 |
| Bae Abertawe | 4 | 11 | 17 | 36 | 63 |

Mewn ymateb i'r angen cynyddol, mae sawl tîm bellach wedi tynnu sylw at y ffaith eu bod wedi cyrraedd cam lle na fydd yn bosibl parhau i ddarparu gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith diogel ac effeithiol.



# Sut olwg sydd ar y gweithlu therapi lleferydd ac iaith presennol?

Rydyn ni'n awyddus i ddeall a yw gweithlu therapi lleferydd ac iaith Cymru yn adlewyrchu'r boblogaeth a wasanaethir gennym.

Yn y bennod hon rydyn ni'n ystyried data gan Ystadegau Cymru, cofnodion aelodaeth RCSLT, ein rheoleiddiwr – y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth a anfonwyd at bob bwrdd iechyd lleol ym mis Awst 2024. Rydyn ni hefyd wedi ystyried y gweithlu therapi lleferydd ac iaith annibynnol yng Nghymru.









**808**
o therapyddion lleferydd ac iaith yn GIG Cymru

**649**
CALI ym mis Mehefin 2024

Mae dadansoddiad o ddata o gofnod staff electronig GIG Cymru[1] (ESR) yn datgelu bod **808** o therapyddion lleferydd ac iaith yn GIG Cymru (cyfrif pennau), cyfwerth ag amser llawn (CALI) - **649** ym mis Mehefin 2024.

Yn debyg i weddill gweithlu'r GIG yng Nghymru, mae nifer y therapyddion lleferydd ac iaith yng Nghymru wedi tyfu dros y degawd diwethaf. Nododd adroddiad tueddiadau gweithlu diweddar[2] GIG Cymru fod y cynnydd canrannol uchaf o weithlu cyfwerth ag amser llawn (CALI) wedi digwydd yn y gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gyda chynnydd o 1,750 CALI; cynnydd canrannol o **30.8%** (rhwng Mawrth 2019-Mawrth 2024). Mae data a gyhoeddwyd gan Stats Cymru[3] yn dangos cynnydd o **21.1%** yn unig mewn therapyddion lleferydd ac iaith CALI dros yr un cyfnod, gan awgrymu nad yw therapi lleferydd ac iaith yn cadw i fyny â thwf y gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd eraill. Nid ydym ychwaith yn cadw i fyny â datblygiadau dros y ffin lle mae ein data aelodaeth yn dangos bod nifer y therapyddion lleferydd ac iaith wedi **dyblu** yn ystod y degawd diwethaf.

| Blwyddyn (o Fis Mawrth) | Therapyddion Lleferydd ac Iaith (cyfrif pennau) | Cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|---|
| 2019 | 696 | 548.5 |
| 2020 | 718 | 560.0 |
| 2021 | 766 | 599.4 |
| 2022 | 777 | 617.6 |
| 2023 | 803 | 649.8 |
| 2024 | 822 | 664.3 |



## Swyddi gwag

**4.6%**
Cyfradd swyddi gwag

Yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r data Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd (data gan 6 bwrdd iechyd ac un ymddiriedolaeth), ar 1 Gorffennaf 2024, adroddwyd cyfradd swyddi gwag o **4.6%**. Mae hyn yn cymharu â'r gyfradd swyddi gwag amcangyfrifedig o **2.8%** mewn staff gwyddonol, therapiwtig a thechnegol yn ystadegau swyddi gwag y GIG (Mawrth 2024).[4] Mae'r aelodau wedi tynnu sylw at y ffaith bod y gyfradd swyddi gwag yn cael ei sgiwio gan nifer y cytundebau lefel gwasanaeth gyda phartneriaid, o fewn a thu allan i'r byrddau iechyd ac efallai na fydd hyn yn adlewyrchu'r darlun cywir.

Gwyddom o'n sgyrsiau gydag aelodau fod ardaloedd mwy gwledig yn arbennig, yn wynebu heriau penodol o ran recriwtio ac mae cyfraddau swyddi gwag yn llawer uwch yn y meysydd hyn. Mewn un ardal wledig yn 2023, roedd cyfradd swyddi gwag o **51%** ar gyfer therapyddion lleferydd ac iaith pediatrig cofrestredig a chyfradd swyddi gwag o **24%** ar gyfer therapyddion lleferydd ac iaith i oedolion cofrestredig. Mae'r aelodau wedi tynnu sylw at y ffaith mai band 6 a 7 fu'r swyddi clinigol mwyaf heriol i'w llenwi yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae gwasanaethau'n ystyried opsiynau arloesol fel tiwtoriaethau i ateb yr heriau recriwtio.

1 Stats Cymru (2024). Staff GIG Cymru: Staff anfeddygol eraill, yn ôl math o swydd a maes gwaith. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Staff/Non-Medical-Staff/othernonmedicalstaff-by-jobtype-areaofwork-year

2 Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2024). Adroddiad tueddiadau gweithlu GIG Cymru (ar 31 Mawrth 2024). https://heiw.nhs.wales/files/nhs-wales-workforce-trends-2024

3 Stats Cymru (2024). Staff GIG Cymru: Staff anfeddygol eraill, yn ôl math o swydd a maes gwaith. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Staff/Non-Medical-Staff/othernonmedicalstaff-by-jobtype-areaofwork-year

4 Llywodraeth Cymru (2024). Ystadegau swyddi gwag y GIG 31 Mawrth 2024 (ystadegau swyddogol yn datblygu). https://www.llyw.cymru/ystadegau-swyddi-gwag-y-gig-31-mawrth-2024-ystadegau-swyddogol-syn-cael-eu-datblygu-html

# Sut olwg sydd ar y gweithlu therapi lleferydd ac iaith presennol?

## Patrymau gweithio

0.8

Cyfradd CALI cyfrif pennau

- Mae data Stats Cymru[5] yn datgelu mai'r gyfradd CALl cyfrif pennau ar gyfer therapyddion lleferydd ac iaith yng Nghymru yw 0.8 sy'n cymharu â 0.9 ar gyfer y grŵp staff gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd.[6] Nid yw'r gyfradd hon wedi newid yn sylweddol dros y 15 mlynedd diwethaf, gan awgrymu na fu newid mawr tuag at neu i ffwrdd o weithio'n rhan-amser. Mae sgyrsiau gydag aelodau yng Nghymru yn awgrymu bod angen mwy o alw am batrymau gweithio mwy hyblyg fel oriau wedi'u cywasgu dros lai o ddyddiau.

## Rhywedd

♀95%

o weithlu therapi lleferydd ac iaith y DU yn fenywod

- Mae therapi lleferydd ac iaith yn broffesiwn sydd â'i weithlu'n bennaf yn fenywod. Yn GIG Cymru, mae **75%** o'r gweithlu gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn fenywod. Mae ystadegau cofrestru'r HCPC[7] yn datgelu bod **95%** o weithlu therapi lleferydd ac iaith y DU yn fenywod, ac mae dadansoddiad o aelodau RCSLT yn cadarnhau bod hyn yn gynrychioliadol o Gymru.

5 Stats Cymru (2024). Staff GIG Cymru: Staff anfeddygol eraill, yn ôl math o swydd a maes gwaith. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Staff/Non-Medical-Staff/othernonmedicalstaff-by-jobtype-areaofwork-year

6 Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2024). Adroddiad tueddiadau gweithlu GIG Cymru (ar 31 Mawrth 2024). https://heiw.nhs.wales/files/nhs-wales-workforce-trends-2024

7 Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (2023). Data amrywiaeth: therapyddion lleferydd ac iaith Tachwedd 2023. https://www.hcpc-uk.org/resources/data/2023/diversity-data-speech-and-language-therapists-2023/

## Cymhwysedd yn y Gymraeg

19%

o'r gweithlu therapi lleferydd ac iaith yn gallu darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg

- Mae data'r cyfrifiad diweddaraf[8] yn nodi bod **18%** o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Fel y gwelir yn adroddiad Tueddiadau Gweithlu GIG Cymru, mae dadansoddi lefel cymhwysedd Cymraeg staff GIG Cymru[9] yn heriol. Yn seiliedig ar ein dadansoddiad o ddata ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, rydym yn amcangyfrif y gall **19%** o'r gweithlu therapi lleferydd ac iaith ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

  Mae'r ffigur hwn yn awgrymu bod ein gweithlu ledled Cymru yn cynrychioli'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ein bod yn deall y gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog yn llawer mwy manwl mewn ardaloedd lleol ac ar draws arbenigeddau clinigol i gyflawni uchelgeisiau cynllun Mwy na Geiriau[10] a Cymraeg 2050.[11]

8 Llywodraeth Cymru (2022). Ystadegau - Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021). https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/12/3/1671610676/y-gymraeg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021.pdf


9 Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2024). Adroddiad tueddiadau gweithlu GIG Cymru (ar 31 Mawrth 2024). https://heiw.nhs.wales/files/nhs-wales-workforce-trends-2024

10 Llywodraeth Cymru (2022). Mwy na geiriau cynllun pum mlynedd 2022-27. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2022-2027.pdf

11 Llywodraeth Cymru (2017). Cymraeg 2050 – miliwn o siaradwyr Cymraeg. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf

# Sut olwg sydd ar y gweithlu therapi lleferydd ac iaith presennol?


## Cefndir ethnig




o weithlu therapi lleferydd ac iaith y DU o gefndir ethnig gwyn

Mae data ESR yn darparu gwybodaeth am gefndir ethnig staff GIG Cymru yn ôl lefel grŵp proffesiynol. Mae **88%** o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn dweud eu bod o gefndir ethnig gwyn.[12] Mae ystadegau cofrestru HCPC[13] yn dangos bod **87%** o weithlu therapi lleferydd ac iaith y DU o gefndir ethnig gwyn. Nid ydym wedi gallu cael rhagor o fanylion am amrywiaeth y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru. Mae hyn yn effeithio'n sylweddol ar ein gallu i ddeall i ba raddau mae ein gweithlu yn cynrychioli'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu.

## Oedran




o'n haelodau sy'n ymarfer yng Nghymru yn 55+ oed

Mae adroddiad tueddiadau gweithlu GIG Cymru[14] yn datgelu rhwng 2019 a 2024 bod cynnydd wedi bod yng nghanran y staff yn y bandiau oedran o 21-40, a gostyngiad yng nghanran y staff rhwng 46 a 60 oed. Mae'r grŵp gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd i raddau helaeth yn dilyn y patrwm hwn ac wedi gweld gostyngiad o **0.3%** yn nifer y staff 55 oed a throsodd. Mae data aelodaeth RCSLT yn dangos bod **9%** o'n haelodau sy'n ymarfer yng Nghymru yn 55+ oed. Mae hyn yn ymddangos yn is na'r ganran ar gyfer y grŵp gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd.


12 Ibid.

13 Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (2023). Data amrywiaeth: therapyddion lleferydd ac iaith Tachwedd 2023. https://www.hcpc-uk.org/resources/data/2023/diversity-data-speech-and-language-therapists-2023/

14 Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2024). Adroddiad tueddiadau gweithlu GIG Cymru (ar 31 Mawrth 2024). https://heiw.nhs.wales/files/nhs-wales-workforce-trends-2024




## Anabledd




o therapyddion lleferydd ac iaith yn y DU yn nodi bod ganddynt anabledd

Mae data ESR yn darparu gwybodaeth am ganran y staff, yn ôl grŵp staff, sydd wedi nodi bod ganddynt ryw fath o anabledd. Gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd sydd â'r ganran uchaf o bob grŵp staff y GIG yn Nghymru sy'n nodi bod ganddynt ryw fath o anabledd, sef **7%**.[15] Mae data amrywiaeth HCPC[16] yn awgrymu bod **6%** o therapyddion lleferydd ac iaith yn y DU yn nodi bod ganddynt anabledd. Nid ydym wedi gallu cael rhagor o fanylion am ganran y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru sydd wedi nodi bod ganddynt ryw fath o anabledd.

## Cyfeiriadedd rhywiol




o therapyddion lleferydd ac iaith yn y DU yn nodi eu bod yn heterorywiol

Mae data ESR yn darparu gwybodaeth am ddadansoddiad cyfeiriadedd rhywiol staff yn ôl grŵp staff. Nid yw **15%** o staff y grŵp gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd wedi datgelu na datgan eu cyfeiriadedd rhywiol. Mae **81%** wedi cofnodi eu bod yn heterorywiol neu'n syth.[17] Mae data amrywiaeth HCPC[18] yn awgrymu bod **87%** o therapyddion lleferydd ac iaith yn y DU yn nodi eu bod yn heterorywiol. Nid oes gennym ddadansoddiad o gyfeiriadedd rhywiol y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru.

15 Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2024). Adroddiad tueddiadau gweithlu GIG Cymru (ar 31 Mawrth 2024). https://heiw.nhs.wales/files/nhs-wales-workforce-trends-2024

16 Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (2023). Data amrywiaeth: therapyddion lleferydd ac iaith Tachwedd 2023. https://www.hcpc-uk.org/resources/data/2023/diversity-data-speech-and-language-therapists-2023/

17 Addysg a Gwella Iechyd Cymru (2024). Adroddiad tueddiadau gweithlu GIG Cymru (ar 31 Mawrth 2024). https://heiw.nhs.wales/files/nhs-wales-workforce-trends-2024

18 Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (2023). Data amrywiaeth: therapyddion lleferydd ac iaith Tachwedd 2023. https://www.hcpc-uk.org/resources/data/2023/diversity-data-speech-and-language-therapists-2023/

# Sut olwg sydd ar y gweithlu therapi lleferydd ac iaith presennol?

## Lleoliad

60%

o therapyddion yn gweithio mewn gwasanaethau pediatrig

40%

yn gweithio mewn gwasanaethau i oedolion

- Rydym wedi cael trafferth cael data ar y lleoliadau lle mae therapyddion lleferydd ac iaith a chynorthwywyr yn gweithio. Mae ein data aelodaeth ledled y DU yn dangos bod tua **60%** o therapyddion lleferydd ac iaith yn gweithio mewn gwasanaethau pediatrig ac mae **40%** yn gweithio mewn gwasanaethau i oedolion. Mae'n hanfodol ein bod yn deall natur y proffesiwn yn llawn a sut mae'n newid dros amser er mwyn cynllunio'r gweithlu yn effeithiol ar gyfer y dyfodol.

## Therapyddion lleferydd ac iaith annibynnol

- Mae cronfa ddata Cymdeithas y Therapyddion Lleferydd ac Iaith mewn Ymarfer Annibynnol (ASLTIP) ar gyfer therapyddion lleferydd ac iaith sy'n gweithio mewn practisau annibynnol[19] yn nodi bod 28 o ymarferwyr yn gweithio yng Nghymru. Deallwn nad yw nifer o aelodau sy'n ymarfer yn annibynnol yn aelodau o ASLTIP a bod maint y sector annibynnol yng Nghymru yn tyfu. Mae ein data arolwg aelodaeth ledled y DU yn dangos bod **20%** o therapyddion lleferydd ac iaith yn gweithio mewn practis annibynnol (mae'r ffigur hwn yn cynnwys **5%** sydd yn gweithio yn y GIG a mewn practis annibynnol).

19 The Association of Speech and Language Therapists in Independent Practice (2024). Find a speech and language therapist. https://asltip.com/find-a-speech-therapist/



## Cymysgedd sgiliau mewn therapi lleferydd ac iaith

139 CALI

- Rydyn ni wedi gweld cynnydd sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran gwella'r cymysgedd sgiliau ym maes therapi lleferydd ac iaith, fel y gwelwyd gan y cynnydd anecdotaidd yn nifer y gweithwyr cymorth ar draws gwasanaethau plant ac oedolion. Mae **139** o gynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith CALI bellach yn gweithio yn GIG Cymru. Fel proffesiwn rydyn ni'n anelu at greu gweithlu cynaliadwy sy'n gweithio hyd eithaf y drwydded. Mae'r data cyfredol ar gynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith yn dameidiog o ran deall proffil cyfrif pennau, oedran ac amrywiaeth ac yn newid dros amser. Mae'n hanfodol bod gennym ddata o'r radd flaenaf i lywio'r defnydd gorau o'r gweithlu.

Rydym hefyd yn pryderu nad ydym yn gwneud y mwyaf o'r cyfle a ddaw yn sgil gweithlu'r cynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith oherwydd diffyg capasiti sydd wedi'i glustnodi a'i ariannu i gefnogi cymwysterau cynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith a diffyg llwybrau i'r gweithlu hwn ddod yn ymarferwyr cofrestredig. Byddwn yn trafod y mater hwn ymhellach yn y bennod nesaf.



# Sut olwg sydd ar y gweithlu therapi lleferydd ac iaith presennol?

## Tueddiadau ehangach y gweithlu


Wrth adolygu ein cyfradd swyddi gwag, rydym yn ymwybodol iawn bod angen i ni wneud mwy o ran cadw pobl a chefnogi datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar bob lefel. Mae diffyg rolau ymarfer uwch a rolau therapi lleferydd ac iaith ymgynghorol presennol yn gryn bryder. Rydyn ni hefyd yn ymwybodol iawn o'n sgyrsiau gydag aelodau am yr anawsterau a brofir gan dimau wrth sicrhau amser ac adnoddau gwarchodedig ar gyfer DPP. Mae'r rhwystrau i gymryd rhan mewn DPP yn niferus gan gynnwys galw clinigol uchel ar wasanaethau a'r hinsawdd ariannol mewn byrddau iechyd, er gwaethaf tystiolaeth glir yn y llenyddiaeth bod cael diwylliant cryf o oruchwyliaeth reolaidd, ymhlith gweithgareddau DPP eraill, yn cael effaith gadarnhaol ar gadw staff a'u lles.[20]

Mae'n hanfodol er mwyn cadw'r gweithlu therapi lleferydd ac iaith ein bod yn cynnwys y gofyniad i gwblhau DPP mewn cynllunio swyddi a'r gweithlu. Rydyn ni wedi croesawu cyllid gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) mewn hyfforddiant lefel ôl-raddedig ar gyfer therapyddion lleferydd ac iaith ac rydyn ni'n pwyso i'r buddsoddiad hwn barhau.

Rydyn ni hefyd yn croesawu cyfleoedd newydd i therapyddion lleferydd ac iaith ddatblygu sgiliau arwain fel cynllun cymrodyr arweinyddiaeth AaGIC. Rydyn ni'n ystyried yn ofalus sut y gall ein cynnig arweinyddiaeth, fel RCSLT, ategu mentrau presennol Cymru. Rydyn ni wedi gweld nifer o therapyddion lleferydd ac iaith yn symud i rolau arweinyddiaeth amlbroffesiynol ac ehangach yn Llywodraeth Cymru a byrddau iechyd lleol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan wneud defnydd llawn o'u sgiliau trosglwyddadwy. Er enghraifft, mae ¾ o Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg o fewn byrddau iechyd lleol yn therapyddion lleferydd ac iaith. Mae cyfleoedd cynyddol i bob gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd, gan gynnwys therapyddion lleferydd ac iaith, weithio mewn swyddi seiliedig ar sgiliau yn hytrach nag ymarferwyr yn y proffesiwn. Bydd y datblygiad hwn yn gofyn am ddull gwahanol o gynllunio'r gweithlu a bydd angen edrych y tu hwnt i niferoedd comisiynu proffesiwn unigol.

Yn ystod y pandemig, ymatebodd y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yn gyflym i'r amgylchiadau cyfnewidiol gan fabwysiadu dulliau newydd o weithio, gan gynnwys defnydd helaethach o dechnoleg a darpariaeth gwasanaethau digidol. Mae llawer o wasanaethau'n parhau i gynnig dull cyfunol o weithio.

## Canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau o ansawdd uchel




o bobl wedi gwella mewn perthynas ag o leiaf un maes therapi lleferydd ac iaith

Mae ymrwymiad cryf ar draws y proffesiwn i weithio ar lefel Cymru gyfan ac i welliant parhaus. Mae Rhwydweithiau Rhagoriaeth Glinigol Cymru Gyfan yn bodoli ar draws meysydd lluosog, clinigol. Mae cydweithio hynod effeithiol wedi arwain at ddatblygu llwybrau ar gyfer therapi lleferydd ac iaith mewn cyflyrau clinigol ar sail tystiolaeth sy'n unigryw i Gymru.

Mae mesur y canlyniadau sy'n gysylltiedig â therapi lleferydd ac iaith yn elfen hanfodol o ddarparu gwasanaethau effeithiol o ansawdd uchel. Mae'r proffesiwn yng Nghymru wedi buddsoddi'n helaeth mewn mesur canlyniadau. Mae mesurau canlyniadau therapi (TOMs)[21] yn ddull o gasglu gwybodaeth am ganlyniadau therapi ac adsefydlu. Defnyddir TOMs i fonitro newidiadau yng ngalluoedd ac anawsterau cleient dros amser mewn pedwar maes: nam, gweithgaredd, cyfranogiad, a lles. Mae Cymru yn arwain y ffordd ar draws y DU o ran nifer y byrddau iechyd sy'n defnyddio offeryn ar-lein RCSLT (ROOT) i gefnogi'r gwaith o gasglu TOMs gyda'r nifer hwn yn parhau i dyfu. Mae data ROOT gan bedwar bwrdd iechyd lleol yn awgrymu bod **80.3%** o bobl wedi gwella mewn perthynas ag o leiaf un maes therapi lleferydd ac iaith.

Mae yna ddiwylliant ymchwil cynyddol hefyd gyda Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ymchwil Cymru a phartneriaethau ar draws gwasanaethau clinigol a phartneriaid academaidd fel gyda Phrifysgolion Metropolitan Caerdydd, Wrecsam a Bangor ac Uned Ymchwil Therapi Lleferydd ac Iaith Bryste.

20 Martin, P, Baldock, K, Kumar, S, & Lizarondo, L. (2019). Factors that contribute to high-quality clinical supervision of the rural allied health workforce: Lessons from the coalface. Australian Health Review: A Publication of the Australian Hospital Association, 43(6), 682-688. doi:10.1071/AH17258

21 Enderby, P, and John, A, (2019). Therapy Outcome Measures User Guide. Croydon, J&R Press Ltd.

# Sut olwg sydd ar y gweithlu therapi lleferydd ac iaith presennol?

## Argymhellion

Rydyn ni'n galw am y canlynol:


- Gwella prosesau casglu data ar gyfansoddiad y proffesiwn i'n galluogi i adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu'n well.
- Cefnogaeth i wella ein dealltwriaeth o sgiliau Cymraeg ein gweithlu presennol a'r gofynion ar gyfer y dyfodol.
- Datblygu cynllun gweithredu tegwch, amrywiaeth a pherthyn ar gyfer Cymru.
- Sicrhau'r adnoddau priodol ar gyfer cymwysterau cynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith, i gynnwys aseswyr, hyfforddwyr a gwirwyr.
- Cydnabod pwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus ac adnoddau ac amser wedi'i neilltuo fel rhan o waith cynllunio swyddi sefydledig.





> "Roedd gen i syniad bras iawn o rôl therapi lleferydd ac iaith cyn gweithio yn yr adran pen a'r gwddf, ond mae'r ddwy flynedd ddiwethaf hyn wedi bod yn addysg lwyr ar ehangder y gwaith rydych chi'n ei wneud gyda'n cleifion. Dw i wedi magu cymaint o barch tuag at y proffesiwn ond hefyd atoch chi i gyd fel ymarferwyr unigol. Dw i wedi dysgu cymaint am fy arbenigedd fy hun ond yn bennaf oll dw i wedi dysgu cymaint am drin a GWRANDO ar gleifion mewn modd cyfannol. Dw i wedi gweithio mewn llawer o adrannau pen a gwddf yn fy 5 mlynedd ers cymhwyso ond dydw i erioed wedi gweithio mor agos â thîm therapi lleferydd ac iaith sydd mor hanfodol i ymarfer adrannol. Diolch am yr holl gyngor, mewnbwn ac am lywio anghenion a dymuniadau cleifion yn ddi-dor, ynghyd â mewnbwn y teulu a chynnydd llawfeddygol/triniaeth. Yn bennaf oll diolch i chi am ein hannog bob amser fel llawfeddygon i gamu yn ôl a gweld y darlun ehangach. Mae lefel ac ansawdd y gofal rydych chi'n ei ddarparu yn gwbl amlwg yn yr ymddiriedaeth sydd gan ein cleifion ynoch chi a'r berthynas sydd gennych chi gyda nhw. Yn benodol, mae eich ymrwymiad i ofal sy'n canolbwyntio ar y claf yn wahanol i unrhyw foeseg a welais erioed, ac rydych chi'n eiriolwyr drostyn nhw bob amser.
>
> Adborth meddyg clust, trwyn a gwddf i'r tîm therapi lleferydd ac iaith ar gyfer gofal critigol canser y pen a'r gwddf





# Beth yw ein gweledigaeth ar gyfer y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru?

Fel rydym wedi amlygu yn y penodau blaenorol, mae gan therapyddion lleferydd ac iaith rôl enfawr i'w chwarae wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Un o nodau allweddol strategaeth gweithlu Cymru iachach[1] yw 'bod â gweithlu mewn niferoedd digonol i allu darparu gofal iechyd a chymdeithasol ymatebol sy'n diwallu anghenion pobl Cymru.'

Rydym yn rhagweld y bydd y proffesiwn therapi lleferydd ac iaith yn ysgogi newid ar draws nifer o agendâu allweddol y llywodraeth, pe bai ganddo'r adnoddau priodol.

1 Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru (2020). Cymru iachach: Ein strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. https://aagic.gig.cymru/files/workforce-strategy/

# Beth yw ein gweledigaeth ar gyfer y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru?

## Blynyddoedd Cynnar

Mae sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn hanfodol ar gyfer canlyniadau iechyd, lles, addysg a chyflogaeth cadarnhaol. Gall hyrwyddo lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar leihau effaith anfantais gymdeithasol ar draws cwrs bywyd.[2]

Bu cynnydd sylweddol yn y maes hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn dilyn cyhoeddi cynllun Llywodraeth Cymru Siarad â Fi: Cynllun cyflawni Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu a chreu swydd Cydlynydd Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Genedlaethol yn Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r rhaglen Siarad â Fi, rydym yn falch o groesawu'r gwaith o greu Prosiect Pengwin. Mae'r prosiect wedi'i ariannu i ddatblygu offer ac adnoddau sgrinio a fydd yn cefnogi ymarferwyr iechyd, addysg a gofal plant i nodi a chefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar.[3]

Fel elfen allweddol wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, mae'n hanfodol bod digon o weithlu therapi lleferydd ac iaith i gefnogi plant a theuluoedd ar lefelau cyffredinol, wedi'u targedu ac arbenigol i sicrhau mynediad amserol a phriodol. Mae therapyddion lleferydd ac iaith Dechrau'n Deg yn ganolog i'r dull hwn o weithredu ac mae angen cyllid cynaliadwy arnynt. Mae'r model hwn yn gwbl gyson â'r ffocws yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chymru Iachach: Cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru[4] ar atal ac edrych ar yr hirdymor.

2 Beard, A (2018). Speech, language and communication: a public health issue across the life course. Paediatrics and Child Health, cyfrol 28, rhifyn 3, t126-131, Mawrth 2018

3 Llywodraeth Cymru (2020). Siarad Gyda Fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-11/siarad-gyda-fi.pdf

4 Llywodraeth Cymru (2018). Cymru Iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. https://www.llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol

5 Llywodraeth Cymru (2018). Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act. legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/2/contents/welsh



## Addysg

Wrth wraidd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018[5] yw ei ffocws ar gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, canlyniadau, gweithio mewn partneriaeth rhwng asiantaethau lleol a mwy o gyfranogiad plant a theuluoedd wrth wneud penderfyniadau. Gan edrych i'r dyfodol, o ystyried y niferoedd uchel o blant a phobl ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ein hysgolion a'n colegau, mae buddsoddiad cynaliadwy yn y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yn hanfodol er mwyn galluogi'r proffesiwn i weithio mewn partneriaeth â'r sector addysg i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i ddysgwyr. Mae angen i ni sicrhau y gall y gweithlu gynnig cymorth i leoliadau ar lefel gyffredinol ac wedi'i thargedu er mwyn galluogi'r defnydd gorau o adnoddau arbenigol.

Ar ôl y pandemig, mae pryder cynyddol am absenoldeb disgyblion[6] a chynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n profi anawsterau iechyd meddwl.[7] Rydyn ni'n dechrau gweld gwell dealltwriaeth o effaith anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu heb eu diwallu ar iechyd meddwl a phresenoldeb mewn ysgolion a rolau newydd sy'n datblygu yn y gofod hwn. Mae'n galonogol gweld cyfeiriadau at anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru 2023 ar bresenoldeb mewn ysgolion.[8] Mae'r dystiolaeth yn glir bod grwpiau mwy agored i niwed o bobl ifanc yn llawer mwy tebygol o fod ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu heb eu diwallu.[9,10] Yn y dyfodol, rydym yn rhagweld cymorth wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau allweddol fel pobl ifanc â phrofiad o ofal, plant a phobl ifanc ag anawsterau iechyd meddwl a mwy o rolau yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu gwahardd ac o fewn unedau cyfeirio disgyblion.

6 Ymchwil y Senedd (2024). Ddim yn yr ysgol: absenoldeb disgyblion. https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/ddim-yn-yr-ysgol-absenoldeb-disgyblion/

7 Comisiynydd Plant Cymru (2024). Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24. https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2024/10/CCfW_ARA23-24-CYMREAG-1.pdf

8 Llywodraeth Cymru (2023). Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi: canllawiau ar wella ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-06/perthyn-ymgysylltu-a-chyfranogi-canllawiau.pdf

9 Hollo, A, Wehby, J. & Oliver, R M (2014). Unidentified Language Deficits in Children with Emotional and Behavioral Disorders: A Meta-Analysis. Exceptional Children

10 Clegg, J, Crawford, E, Spencer,S (2021). 'Developmental Language Disorder (DLD) in Young People Leaving Care in England: A Study Profling the Language, Literacy and Communication Abilities of Young People Transitioning from Care to Independence'.

# Beth yw ein gweledigaeth ar gyfer y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru?

## Cyfiawnder

O ystyried y dystiolaeth sylweddol am fynychder sylweddol anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn lleoliadau cyfiawnder,[11] rydym yn rhagweld y bydd therapyddion yn y dyfodol yn cael eu gosod mewn lleoliadau cyfiawnder ieuenctid a charchardai fel rhan o ddull ataliol ac i helpu pobl ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu i ddeall a chymryd rhan yn y broses gyfiawnder.

## Gofal yn nes at adre

x2

Bydd cyfran y boblogaeth 80 oed a hŷn wedi **dyblu** rhwng 2000 a 2038

Mae heriau enfawr yn wynebu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd cyfran y boblogaeth 80 oed a hŷn wedi dyblu rhwng 2000 a 2038.[12] Bydd y boblogaeth sy'n heneiddio a'r cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor ac eiddilwch yn cynyddu'r galw am gymorth ar gyfer cyfathrebu a llyncu yn sylweddol.

Bydd nifer yr achosion o strôc yn cynyddu dros amser a disgwylir y bydd oedolion yng Nghymru fydd wedi cael strôc yn cynyddu **33%** rhwng 2015 a 2035.

Rhagwelir y bydd cynnydd o **70%** rhwng 2019 a 2040 yn nifer y bobl sy'n byw gyda dementia yng Nghymru.

Os bydd y tueddiadau presennol yn parhau, bydd nifer y bobl yng Nghymru sy'n cael diagnosis o ganser yn cynyddu o'r **19,800** oedd yn cael diagnosis bob blwyddyn rhwng 2017 a 2019, i **24,800** yn 2040.[13]

Mae adroddiad Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd 'gwneud y GIG yn fwy effeithlon yn gofyn am ragor o fuddsoddiad mewn gofal sylfaenol a'r gweithlu ehangach (e.e. gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd)'.[14] Bydd gan therapyddion lleferydd ac iaith rôl allweddol i'w chwarae wrth atal dirywiad mewn iechyd a lles sydd fel arall yn arwain at gymorth costus a dwys yn nes ymlaen.



Yn ein gweledigaeth ni, bydd therapyddion yn cael eu lleoli ym mhob tîm amlddisgyblaethol cymunedol perthnasol fel rhan o'u staffio safonol. Bydd adnoddau'n cael eu cynllunio a'u dyrannu i sicrhau bod gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith ar gael ar draws gwasanaethau iechyd sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl.

Yn ogystal, bydd therapyddion yn cael eu grymuso i weithio hyd eithaf y drwydded, gan gynnig gwasanaethau sy'n lleihau'r galw gan wasanaethau am arbenigeddau meddygol sy'n wynebu arosiadau hir fel gwasanaethau'r glust, y trwyn a'r gwddf, gan leihau derbyniadau brys a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl a'u teuluoedd. Er enghraifft:

- asesiadau llyncu drws ffrynt fel rhan o wasanaethau eiddilwch
- cymryd gwasanaethau'r glust, y trwyn a'r gwddf blaenoriaeth isel fel llyncu ac atgyfeiriadau llais oddi ar y rhestr aros a chynnig asesiadau a rheolaeth uniongyrchol
- ymarferwyr uwch ym maes canser y pen a'r gwddf.

## Arweinyddiaeth

Y tu hwnt i'r proffesiwn, ein dyhead yw y bydd therapyddion lleferydd ac iaith yn gallu dod â'u sgiliau a'u galluoedd unigryw fwyfwy i rolau ehangach a strategol o fewn y llywodraeth, byrddau iechyd a chyrff allweddol.

11 UK Government (2020). Assessing the needs of sentenced children in the Youth Justice System - https://www.gov.uk/government/statistics/assessing-the-needs-of-sentenced-children-in-the-youth-justice-system

12 Llywodraeth Cymru (2023). Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth: Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy Archwiliad o effaith amcanestynedig cyflyrau hirdymor a ffactorau risg yng Nghymru. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-09/cyngor-ar-wyddoniaeth-a-thystiolaeth.pdf

13 Ibid.

14 Ibid.



# Sut olwg fydd ar y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yn y dyfodol?

Mae angen i'r gweithlu therapi lleferydd ac iaith yn y dyfodol adlewyrchu'r poblogaethau rydyn ni'n eu gwasanaethu o ran amrywiaeth, y Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol.

Mae angen i therapyddion lleferydd ac iaith a chynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith y dyfodol feddu ar y sgiliau a'r cymwyseddau i ddatblygu modelau gofal newydd ac addasu i amgylchedd sy'n newid yn gyflym.

Ar hyn o bryd yng Nghymru, comisiynir dau gwrs, tair blynedd, llawn amser, cyn-gofrestru ar gyfer therapi lleferydd ac iaith ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Wrecsam. Nid oes cyrsiau ôl-raddedig rhan-amser na dwy flynedd ar gael na llwybrau mwy hygyrch i ddysgu fel cynlluniau ennill cyflog wrth ddysgu.

Fel y dangosir isod, mae nifer y lleoedd a gomisiynir ar gyfer therapi lleferydd ac iaith yn cynyddu'n raddol dros amser. Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi ceisio ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ers 2018 ac mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi buddsoddi mewn darlithwyr cyfrwng Cymraeg yn y ddwy brifysgol. Mae'r amodau o ran nifer y myfyrwyr ar y llwybr cyfrwng Cymraeg yn amod cyllido gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Cyflwynwyd cwotâu ar gyfer myfyrwyr Cymraeg eu hiaith hefyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar gyfer niferoedd 2021 ac mae'n cyfateb i **24%** o'r lleoedd a gomisiynwyd.

Rydyn ni wedi galw ers tro am gynnydd parhaus i leoedd hyfforddi therapi lleferydd ac iaith i ateb y galw cynyddol. Rydyn ni'n rhagweld y gellid darparu ar gyfer lleoedd ychwanegol o ystyried y galw mawr am y cyrsiau yng Nghaerdydd a Wrecsam. Mae diddordeb gan y proffesiwn mewn cynnig lleoliadau arloesol i gefnogi ehangu lleoedd myfyrwyr.

| Blwyddyn | Nifer y lleoedd hyfforddi therapi lleferydd ac iaith |
|---|---|
| 2019/20 | 44 |
| 2020/21 | 49 |
| 2021/22 | 49 |
| 2022/23 | 49 |
| 2023/24 | 49 |
| 2024/25 | 55 |

Rydyn ni hefyd yn ymwybodol iawn bod y diffyg llwybrau eraill sydd ar gael i'r proffesiwn y tu hwnt i'r cwrs israddedig llawn amser yn effeithio ar amrywiaeth y proffesiwn a'r gallu i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Mae'r gweithlu presennol yn bennaf yn fenywod ac yn wyn. Mae'r llwybrau cyfyngedig i'r proffesiwn hefyd yn rhwystro gallu byrddau iechyd lleol i dyfu eu gweithlu eu hunain.

Yn ystod haf 2024, gwnaethom gynnal arolwg gyda chynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith ledled Cymru i ddeall graddau'r diddordeb mewn ymgymryd â hyfforddiant i ddod yn therapydd lleferydd ac iaith cofrestredig a barn ar y llwybrau cyfredol i'r proffesiwn. Cawsom gyfradd ymateb gref o 92 o gynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith ar draws pob bwrdd iechyd yng Nghymru.



Byddai **47%** o gynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith yn ystyried hyfforddi fel therapydd lleferydd ac iaith.

Byddai **98%** o gynorthwywyr a fyddai'n ystyried hyfforddi fel therapydd lleferydd ac iaith yn bwriadu gweithio yng Nghymru unwaith y byddant wedi cymhwyso.

Amlygodd yr ymatebwyr mai'r prif rwystrau i ymgymryd â chyrsiau oedd diffyg cwrs oedd yn agos a chostau'r cwrs.

Dewis **95%** o gynorthwywyr ar gyfer cwblhau hyfforddiant fyddai'r model prentisiaeth/ennill cyflog wrth ddysgu.

Mae canlyniadau'r arolwg yn datgelu'r potensial enfawr i archwilio llwybrau ehangu mynediad i'r proffesiwn. Fel proffesiwn â niferoedd prin,[1] credwn fod y model tyfu eich gweithlu eich hun yn cynnig cyfleoedd newydd pwysig ar gyfer dilyniant gyrfa i'r rhai sydd eisoes yn gweithio mewn lleoliadau gofal iechyd ac i'r gweithlu cynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith presennol.

Mae yna wersi sylweddol i'w dysgu o gyflwyno prentisiaethau yn Lloegr lle mae tair prifysgol hyd yma yn gweithio gyda chyflogwyr i gynnig y brentisiaeth, ac mae mwy â diddordeb mewn gwneud.

> 'Rwy'n caru fy rôl fel cynorthwyydd adsefydlu ac rwyf wedi cael fy ysbrydoli gan y therapyddion lleferydd ac iaith rwy'n gweithio ochr yn ochr â nhw. Rwy'n edrych ar fy opsiynau i weithio yn y proffesiwn a hyfforddi i ddod yn therapydd Iaith a Lleferydd ond rwyf mewn sefyllfa lle nad wyf yn teimlo y gallwn fforddio peidio â chael unrhyw incwm a dychwelyd i astudio llawn amser. Rwy'n edrych yn hir ar yr opsiynau sydd ar gael yn Lloegr ar gyfer prentisiaethau gradd yn Essex, Birmingham a Sheffield lle mae prentisiaeth â thâl yn bosibl. Yn ddelfrydol, byddwn wrth fy modd yn parhau i weithio o fewn y GIG, wrth hyfforddi i ddod yn therapydd ond ar hyn o bryd, nid yw'n ymddangos ei fod yn opsiwn.'
>
> Cynorthwyydd Adsefydlu, Awst 2024

# Sut olwg fydd ar y gweithlu therapi lleferydd ac iaith yn y dyfodol?

## Cadw'r gweithlu presennol

Y tu hwnt i edrych ar boblogaeth y myfyrwyr, mae'n hanfodol cefnogi iechyd a lles ein gweithlu presennol. Fel y nodwyd Strategaeth Gweithlu Cymru Iachach,[2] mae llawer o weithlu'r dyfodol gyda ni heddiw, ac mae cadw ein gweithlu yr un mor bwysig â recriwtio.

O ddadansoddi data ar ein gweithlu presennol, mae'n hanfodol, wrth symud ymlaen, bod ffocws cryf ar gydbwysedd bywyd gwaith a chyfleoedd gyrfa hyblyg i ddiwallu anghenion sy'n newid.

Er mwyn cadw therapyddion a chynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith, mae angen i ni gefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar bob lefel. Mae hyn yn cynnwys cael gwared ar rwystrau sy'n atal gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd rhag gallu datblygu eu sgiliau - er enghraifft, pwyso ar Lywodraeth y DU i ddechrau'r broses o ymestyn cyfrifoldebau rhagnodi annibynnol i'r gweithwyr hyn fel y gallant ddarparu gwell gofal. Mae angen i ni hefyd weld buddsoddiad mewn rolau ymarfer uwch ac ymgynghorol i alluogi gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd i weithio hyd eithaf eu trwydded a thrawsnewid llwybrau gofal.

Bydd trawsnewid digidol yn chwarae rhan allweddol yn y GIG yn y dyfodol. Mae angen i ni sicrhau bod therapyddion lleferydd ac iaith, fel rhan o'r grŵp gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ehangach, yn datblygu'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau a sicrhau trawsnewid digidol.

Mae dyfodiad deallusrwydd artiffisial yn newid gofal iechyd. Bydd rhaid i weithlu therapi lleferydd ac iaith y dyfodol ddeall ei bosibiliadau a'i gyfyngiadau.

1 Llywodraeth y DU (2024). Skilled worker visa immigration list. https://www.gov.uk/government/publications/skilled-worker-visa-immigration-salary-list

2 Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru (2020). Cymru iachach: Ein strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. https://aagic.gig.cymru/files/workforce-strategy/

## Argymhellion

- Cynnydd parhaus mewn lleoedd hyfforddi therapi lleferydd ac iaith, gan ystyried yr angen i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chyflwyno cyfleoedd ennill cyflog wrth ddysgu ar gyfer therapi lleferydd ac iaith er mwyn gwneud y mwyaf o'r potensial i dyfu ein gweithlu ein hunain.
- Cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith i ateb y galw cynyddol.
- Gwaith cynllunio gweithlu gwell, mwy soffistigedig, ar gyfer y proffesiwn fel rhan o'r agenda ataliol, gan ystyried yr angen i fodloni safonau a galw gan sectorau newydd.
- Argaeledd rolau therapyddion lleferydd ac iaith uwch ac ymgynghorol er mwyn cadw staff.
- Mwy o ffocws gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gynyddu llythrennedd digidol y gweithlu therapi lleferydd ac iaith a datblygu'r cyflenwad arweinyddiaeth ddigidol.





# Argymhellion

1. Cynnydd parhaus mewn lleoedd hyfforddi therapi lleferydd ac iaith, gan ystyried yr angen i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chyflwyno cyfleoedd ennill cyflog wrth ddysgu ar gyfer therapi lleferydd ac iaith er mwyn gwneud y mwyaf o'r potensial i dyfu ein gweithlu ein hunain.
2. Cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith i ateb y galw cynyddol.
3. Gwella prosesau casglu data ar gyfansoddiad y proffesiwn i'n galluogi i adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu'n well.
4. Cefnogaeth i wella ein dealltwriaeth o sgiliau Cymraeg ein gweithlu presennol a'r gofynion ar gyfer y dyfodol.
5. Gwaith cynllunio gweithlu gwell, mwy soffistigedig, ar gyfer y proffesiwn fel rhan o'r agenda ataliol, gan ystyried yr angen i fodloni safonau a galw gan sectorau newydd.
6. Datblygu cynllun gweithredu tegwch, amrywiaeth a pherthyn ar gyfer Cymru.
7. Sicrhau'r adnoddau priodol ar gyfer cymwysterau cynorthwywyr therapi lleferydd ac iaith, i gynnwys aseswyr, hyfforddwyr a gwirwyr.
8. Cydnabod pwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus ac adnoddau ac amser wedi'i neilltuo fel rhan o waith cynllunio swyddi sefydledig.
9. Argaeledd rolau therapyddion lleferydd ac iaith uwch ac ymgynghorol er mwyn cadw staff.
10. Mwy o ffocws gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gynyddu llythrennedd digidol y gweithlu therapi lleferydd ac iaith a datblygu'r cyflenwad arweinyddiaeth ddigidol.

"Diolch yn fawr iawn am weld y ddynes ifanc oedd â ffobia tagu gyda mi. Ers ein sesiwn, mae hi wedi gwneud cynnydd gwych ac yn bwyta'n eithaf normal nawr - y tro cyntaf ers bron i ddwy flynedd. Mae hi wedi adfer cryn dipyn o bwysau ac mae hyn yn parhau i fynd i'r cyfeiriad cywir. Fe wnaethon ni fyfyrio ar eich sesiwn yn ein sesiwn ddiwethaf ddoe ac roedd hi'n dal i gofio cymaint ohono a sut roedd yn drobwynt mor arwyddocaol iddi. Alla i ddim diolch digon i chi am y mewnbwn hwnnw oherwydd dydw i ddim yn siŵr y byddem wedi gallu symud ymlaen gyda'r therapi ac iddi hi brofi'i chredoau yn y ffordd y gwnaethom pe na bai wedi bod am gynyddu ein gwybodaeth am anatomeg y gwddf, a'r addysg am y teimladau yn ei gwddf.

Seicolegydd mewn perthynas â chymorth i berson ifanc ag Anhwylder Cymeriant/Osgoi Bwyd Cyfyngol

"Hwn oedd yr apwyntiad cyntaf a gawson ni gyda (therapi lleferydd ac iaith), a dw i'n teimlo'n eithaf emosiynol nawr mewn gwirionedd. Roedd hi jyst mor braf teimlo bod rhywun yn fy neall o ran pa mor anodd fyddai bywyd o gymharu â sut roedd o wedi bod o'r blaen.

Person ag anawsterau llyncu



"Beth allwn ni ei ddweud? Dau ddyfais electronig. Llwyth o apwyntiadau. Llwyth o ofid a phryder. Un o benderfyniadau mwyaf ein bywydau. Yna llawdriniaeth mewnblaniad cochlear. A BLWYDDYN YN DDIWEDDARACH mae gennym fachgen bach hapus sy'n clywed. Wnaethon ni erioed ddychmygu yr holl rwystrau oeddet ti'n ei wynebu mewn bywyd ond i ti allu clywed ein lleisiau, gallu siarad geiriau/brawddegau a gallu cyfathrebu ag eraill. Rydyn ni'n arbennig o ddiolchgar i bawb sydd wedi bod yn rhan o daith ein plentyn. Allen ni fyth diolch digon i'r tîm cochlear, a hefyd yr holl benderfyniadau a wnaed ar hyd y ffordd gan yr holl arbenigwyr sy'n ymwneud â'n bachgen bach ers ei eni. Rydych chi wedi rhoi i ni i gyd fel teulu yr anrheg orau mewn bywyd y gallem fod wedi dychmygu erioed a newid ein bywydau i gyd.♥ PEN-BLWYDD 1AF HAPUS, DIWRNOD MEWNBLANIADAU COCHLEAR ♥ ein soldiwr bach go iawn... Allwch chi ddim dychmygu faint rydych chi i gyd wedi'n helpu ni fel teulu... Diolch yn fawr iawn!! Xxx"

Teulu plentyn â byddardod

"Rwy'n credu mai'r peth da am therapi lleferydd yw eu bod wedi dweud wrtha i cyn i mi ddechrau fy nhriniaeth, pa ymarferion y mae angen i mi eu gwneud i gynnal fy ngenau ar agor a siarad a bwyta a'r holl bethau yna. Felly rwy'n credu bod cyngor cynnar yn bwysig.

Person ag anawsterau llyncu



RCSLT
WALES
CYMRU

# Cysylltwch â ni

3ydd llawr,
Tŷ Trafnidiaeth,
1 Heol y Gadeirlan,
Caerdydd CF11 9SB

029 2002 5585

walesoffice@rcslt.org

@RCSLTWales